OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 683 (Cy.71)

LANDLORD A THENANT, CYMRU

Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*9 Mawrth 2004*
Yn dod i rym - -	*31 Mawrth 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan baragraffau 1 a 9 o Atodlen 12 i Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) 2004.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Mawrth 2004.

(3) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "achos a drosglwyddwyd" ("*transferred proceedings*") yw achos y mae llys wedi'i drosglwyddo i dribiwnlys ei benderfynu;

ystyr "cais" ("*application*") yw cais sy'n cael ei wneud i'r tribiwnlys o dan —

(a) adran 20ZA o Ddeddf 1985 (gofynion ymgynghori)(**2**);

(b) adran 27A o Ddeddf 1985 (taliadau am wasanaeth)(**3**));

(c) paragraff 8(2) o'r Atodlen i Ddeddf 1985 (yswirwyr)(**4**));

(ch) adran 24 o Ddeddf 1987 (penodi rheolwyr)(**5**);

(d) Rhan 4 o Ddeddf 1987 (amrywio lesddaliadau);

(dd) paragraff 3 o Atodlen 11 i Ddeddf 2002 (taliadau am weinyddu); neu

(e) paragraff 5 o Atodlen 11 i Ddeddf 2002;

(**1**) 2002 p.15. Ystyr "appropriate national authority" yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru (*gweler* adran 179(1)).
(**2**) Wedi'i hamnewid, ynghyd ag adran 20 newydd, gan Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (p.15) ("Deddf 2002"), adran 151(1), sydd mewn grym at ddibenion gwneud rheoliadau o 1 Ionawr 2003 ymlaen (O.S. 2002/3012) ac mewn grym at y dibenion sy'n weddill o 30 Mawrth 2004 ymlaen (O.S. 2004/669 (Cy.62) (C.25)).
(**3**) Wedi'i mewnosod gan Ddeddf 2002, adran 155(1) o 30 Mawrth 2004 ymlaen (O.S. 2004/669 (Cy.62) (C.25)).
(**4**) Wedi'i amnewid gan Ddeddf Tai 1996 (p.52), adran 83(2).
(**5**) Wedi'i diwygio gan Ddeddf Tai 1996 (p.52), adran 86(2); wedi'i diwygio gan Ddeddf 2002, adran 160(1), (4) o 1 Ionawr 2003 ymlaen; mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

ystyr "cais cynrychioliadol" ("*representative application*") yw cais sy'n cael ei drin fel cais cynrychioliadol o dan reoliad 8 o Reoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Gweithdrefn) (Cymru) 2004(**6**);

ystyr "ceisydd" ("*applicant*") yw —

(a) y person sy'n gwneud cais i dribiwnlys; neu

(b) y person sy'n hawlydd neu'n geisydd mewn achos gerbron llys sy'n cael ei drosglwyddo drwy orchymyn y llys i dribiwnlys;

ystyr "Deddf 1985" ("*the 1985 Act*") yw Deddf Landlord a Thenant 1985(**7**);

ystyr "Deddf 1987" ("*the 1987 Act*") yw Deddf Landlord a Thenant 1987(**8**));

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002;

ystyr "gwrandawiad" ("*hearing*") yw gwrandawiad gerbron tribiwnlys i benderfynu un neu ragor o'r canlynol —

(a) cais;

(b) achos a drosglwyddwyd; neu

(c) cais cynrychioliadol,

ond, at ddibenion talu ffi am wrandawiad, nid yw'n cynnwys—

(i) adolygiad cyn treial; neu

(ii) gwrandawiad i ystyried gwrthod cais am ei fod yn wacsaw neu'n flinderus; ac

ystyr "tribiwnlys" ("*tribunal*") yw tribiwnlys prisio lesddaliadau.

Cymhwysiad y Rheoliadau

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys —

(a) i unrhyw gais sy'n cael ei gyflwyno i dribiwnlys ar neu ar ôl 31 Mawrth 2004;

(b) i unrhyw achos sy'n cael ei drosglwyddo o lys i dribiwnlys ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw,

mewn perthynas â thir ac adeiladau yng Nghymru.

Ffioedd: ceisiadau

3.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 8, bydd ffi yn daladwy am gais i dribiwnlys o dan —

(a) adran 27A o Ddeddf 1985 (penderfynu atebolrwydd i dalu tâl am wasanaeth);

(b) paragraff 8(2)(b) o'r Atodlen i Ddeddf 1985 (hawl i herio'r premiwm yswiriant);

(c) paragraff 3 o Atodlen 11 i Ddeddf 2002 (amrywio les oherwydd tâl am weinyddu); ac

(ch) paragraff 5 o Atodlen 11 i Ddeddf 2002 (penderfynu atebolrwydd i dalu tâl am weinyddu).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), y ffi sy'n daladwy o dan baragraff (1), os yw'r tâl am wasanaeth, y premiwm yswiriant neu'r tâl am weinyddu sy'n destun y cais —

(a) heb fod yn fwy na £500, yw £50;

(b) yn fwy na £500 ond heb fod yn fwy na £1000, yw £70;

(c) yn fwy na £1000 ond heb fod yn fwy na £5000, yw £100;

(ch) yn fwy na £5000 ond heb fod yn fwy na £15000, yw £200; a

(**6**) O.S. 2004/[681 (Cy.69)].
(**7**) 1985 p.70.
(**8**) 1987 p.31.

(d) yn fwy na £15000, yw £350.

(3) Yn ddarostyngedig i reoliad 8, bydd ffi yn daladwy am gais i dribiwnlys o dan —

(a) adran 20ZA o Ddeddf 1985 (penderfyniad i hepgor gofynion ymgynghori);

(b) paragraff 8(2)(a) o'r Atodlen i Ddeddf 1985 (penderfynu pa mor addas yw yswiriwr);

(c) adran 24 o Ddeddf 1987 (penodi rheolwyr); ac

(ch) Rhan 4 o Ddeddf 1987 (amrywio lesddaliadau).

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), y ffi sy'n daladwy o dan baragraff (3) —

(a) os yw'r cais yn ymwneud â phum annedd neu lai, yw £150;

(b) os yw'r cais yn ymwneud â rhwng chwech a deg o anheddau, yw £250; ac

(c) os yw'r cais yn ymwneud â mwy na deg annedd, yw £350.

(5) Os yw cais yn cael ei wneud o dan —

(a) dwy neu ragor o'r darpariaethau a grybwyllwyd ym mharagraff (1);

(b) dwy neu ragor o'r darpariaethau a grybwyllwyd ym mharagraff (3); neu

(c) un neu ragor o'r darpariaethau a grybwyllwyd ym mharagraff (1) ac un neu ragor o'r darpariaethau a grybwyllwyd ym mharagraff (3),

y ffi sy'n daladwy am y cais fydd yr uchaf o'r ffioedd a fyddai wedi bod yn daladwy yn unol â pharagraff (2) neu (4) (yn ôl y digwydd) pe bai cais ar wahân wedi'i wneud o dan bob un o'r darpariaethau hynny.

Ffioedd: ceisiadau a drosglwyddwyd o lys

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) a rheoliad 8, os yw llys, drwy orchymyn, yn trosglwyddo i dribiwnlys gymaint o unrhyw achos ag sy'n ymwneud â phenderfynu cwestiwn sy'n dod o dan awdurdodaeth y tribiwnlys yn rhinwedd darpariaeth a grybwyllwyd ym mharagraff (1) neu (3) o reoliad 3, y ffi sy'n daladwy i'r tribiwnlys fydd y ffi a fyddai wedi bod yn daladwy o dan baragraff (2), (4) neu (5) o'r rheoliad hwnnw (yn ôl y digwydd) am gais namyn cyfanswm unrhyw ffioedd a dalwyd gan y ceisydd i'r llys mewn perthynas â'r achos ar ddyddiad y gorchymyn hwnnw neu cyn hynny.

(2) Os yw cyfanswm unrhyw ffioedd a dalwyd i'r llys ar neu cyn dyddiad y gorchymyn a grybwyllwyd ym mharagraff (1) yn hafal i'r ffi sy'n daladwy o dan y paragraff hwnnw, neu'n fwy na hi, ni fydd unrhyw ffi yn daladwy i'r tribiwnlys o dan y paragraff hwnnw.

Ffioedd: gwrandawiadau

5.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) a rheoliad 8, bydd ffi o £150 yn daladwy am wrandawiad.

(2) Os yw rhan o gais neu achos a drosglwyddwyd yn cael ei benderfynu neu os bydd yn cael ei benderfynu mewn, neu'n unol â, gwrandawiad cais cynrychioliadol a bod rhan i'w phenderfynu mewn gwrandawiad ar wahân, y ffi am y rhan sydd i'w gwrando ar wahân fydd £150 namyn cyfanswm unrhyw ffioedd a dalwyd gan y ceisydd yn unol â rheoliad 7(5) am y rhan honno o'r cais neu'r achos a drosglwyddwyd sydd i'w benderfynu yn y cais cynrychioliadol, neu'n unol ag ef.

Talu ffioedd

6.—(1) Rhaid i unrhyw ffi sy'n daladwy o dan reoliad 3 fynd gyda'r cais.

(2) Bydd unrhyw ffi sy'n daladwy o dan reoliad 4 neu 5 yn ddyledus cyn pen 14 diwrnod ar ôl archiad ysgrifenedig am daliad gan y tribiwnlys a rhaid ei hanfon i'r cyfeiriad a bennir yn yr archiad hwnnw.

(3) Rhaid i'r ffi gael ei thalu â siec wedi'i gwneud yn daladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu ag archeb bost wedi'i hysgrifennu yn enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rhwymedigaeth i dalu a dosrannu ffioedd

7.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 8 a'r paragraffau canlynol, bydd y ceisydd yn atebol i dalu unrhyw ffi sy'n daladwy i dribiwnlys o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), os yw cais yn cael ei wneud neu os yw achos a drosglwyddwyd yn cael ei ddwyn gan fwy nag un person, rhaid dosrannu unrhyw ffi sy'n daladwy o dan reoliad 3 neu 4 am y cais neu'r achos a drosglwyddwyd yn gyfartal rhwng y personau hynny a bydd pob person yn atebol i dalu un gyfran.

(3) Os digwydd y canlynol —

(a) bod cais yn cael ei wneud neu achos a drosglwyddwyd yn cael ei ddwyn gan denant neu landlord y tir ac adeiladau; a

(b) bod y tenant neu'r landlord yn fwy nag un person,

rhaid trin y personau hynny gyda'i gilydd fel un person at ddibenion paragraff (2).

(4) Os oes dau gais neu ragor yn cael eu gwrando gyda'i gilydd, ac eithrio ceisiadau sy'n cael eu gwrando gyda chais cynrychioliadol, rhaid dosrannu unrhyw ffi sy'n daladwy o dan reoliad 5 am y gwrandawiad yn gyfartal rhwng y ceisiadau ac, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraffau (2), (3) a (6) a rheoliad 8, bydd y ceisydd ym mhob cais yn atebol i dalu un gyfran.

(5) Rhaid dosrannu unrhyw ffi sy'n daladwy o dan reoliad 5 am wrando cais cynrychioliadol ac unrhyw gais a wrandawyd gyda'r cais cynrychioliadol yn gyfartal rhwng —

(a) y cais cynrychioliadol;

(b) pob cais arall sydd, adeg yr archiad am dalu'r ffi, i'w benderfynu yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn unol â'r cais cynrychioliadol; ac

(c) unrhyw gais a wrandawyd gyda'r cais cynrychioliadol,

ac, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraffau (2), (3) a (6) a rheoliad 8, bydd y ceisydd ym mhob cais yn atebol i dalu un gyfran o'r ffi.

(6) Rhaid i'r swm sy'n daladwy gan unrhyw berson mewn perthynas â ffi gael ei gyfrifo yn unol â darpariaethau'r erthygl hon a chan ystyried y personau sy'n geiswyr ar y dyddiad y mae'r cais yn cael ei wneud neu ddyddiad yr archiad am daliad a ddyroddwyd gan y tribiwnlys.

(7) Yn y rheoliad hwn, mae "ceisydd" yn cynnwys unrhyw berson y mae ei archiad o dan reoliad 6 o Reoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Gweithdrefn) (Cymru) 2004 am gael ei gyplysu fel parti i'r achos a'i drin fel ceisydd, wedi'i ganiatáu gan y tribiwnlys.

Hepgor a lleihau ffioedd

8.—(1) Ni fydd person yn atebol dros dalu unrhyw ffi sy'n ddyledus o dan y Rheoliadau hyn os ar y dyddiad perthnasol, y mae'r person hwnnw neu bartner y person yn cael —

(a) y naill neu'r llall o'r budd-daliadau canlynol o dan Ran 7 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(**9**) —

(i) cymhorthdal incwm; neu

(ii) budd-dal tai;

(**9**) 1992 p.4; a ddiwygiwyd gan Ddeddf Credydau Treth 2002 (p.21), adrannau 60 ac Atodlen 6. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.